**Dyddiadau ffenestri datgan diddordeb Awst 2024**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau Ffenestri** |
|---|---|---|
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb) |
| Grantiau Bach – Amgylchedd: Dŵr | Mae'r cynllun Grantiau Bach - Amgylchedd: Dŵr yn darparu cyllid o hyd at £7,500 i fusnesau fferm i gwblhau prosiectau cyfalaf amgylcheddol ar raddfa fach i helpu i wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.<br><br>Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd-dwr | 12 Awst 2024 – 20 Medi 2024 |
| Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig | Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn grant i ddatblygu cynlluniau gweithredu prosiectau, a bydd cydweithio llwyddiannus gyda chynlluniau gweithredu cymeradwy yn arwain at gytundebau amlflwydd pellach i gyflawni'r prosiect.<br><br>Mae CANI yn gynllun arloesol sy'n cyd-fynd yn agos â'r SFS arfaethedig, gyda'r nod o gefnogi'r diwydiant amaeth yn ystod y cam trosglwyddo.<br><br>Fe'i defnyddir fel sylfaen ar gyfer elfen tirwedd gydweithredol yr SFS<br><br>Mwy o wybodaeth:<br><br>https://www.llyw.cymru/cynllun-adnoddau-naturiol-integredig | 22 Awst 2024 – 27 Medi 2024 |
| Grant Creu Coetir | Mae'r Grant Creu Coetir yn darparu cymorth ariannol i greu ardaloedd coetir mwy o faint neu ardaloedd bach nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir.<br><br>Yr ardal leiaf y gellir gwneud cais ar ei chyfer yw 0.25ha. Does dim ardal fwyaf.<br><br>Mae'r cynllun yn darparu cyllid ar gyfer plannu coed a gosod ffensys a gatiau.<br><br>Mae hefyd yn cynnig 12 mlynedd o daliadau premiwm a chynnal a chadw (i wneud iawn am golli incwm amaethyddol).<br><br>Nid yw plannu coed fel rhan o'r cynllun yn golygu colli taliadau na chymhwysedd y tir ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS),<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir | 4 Mawrth 2024 – 22 Tachwedd 2024 |